07/09/2023

Mae Strydoedd Ysgol yng Nghaerdydd yn rhan o raglen y Cyngor ar gyfer sicrhau bod teithio i'r ysgol yn fwy diogel. Rydyn ni wedi ysgrifennu at breswylwyr o'r blaen am Stryd Ysgol Coed y Gof ar Lime Grove a Bramble Close.

Cafodd y Stryd Ysgol ei rhoi ar waith drwy Orchymyn Rheoli Traffig Arbrofol, sy'n broses gyfreithiol sy'n para am 18 mis. Mae'r Stryd Ysgol wedi cael ei hasesu drwy, er enghraifft, fonitro yn ystod y cynllun a derbyn ymatebion i arolwg yn gynharach eleni. Mae argymhelliad wedi'i wneud i wneud y cynllun yn barhaol. Mae hyn yn amodol ar Orchymyn Rheoleiddio Traffig pellach, sy'n cynnwys cyfnod ymgynghori statudol.

Mae trigolion o fewn y Stryd Ysgol ac o fewn radiws 50m i'r cynllun yn cael eu hysbysu bod y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig parhaol sy'n gysylltiedig â'r cynllun Stryd Ysgol bellach ar y cam ymgynghori cyhoeddus a bydd yn cael ei hysbysebu ar 05/09/23. Byddwn ni hefyd yn hysbysu'r ysgol a busnesau lleol.

Mae manylion y cynigion a'r cynlluniau sy'n dangos lleoliad a hyd a lled y cyfyngiadau arfaethedig ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/gorchmyniontraffig. Ar ôl i'r hysbysiadau gael eu codi ar y safle, cynhelir cyfnod gwrthwynebu o 21 diwrnod. Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig ar neu cyn y dyddiad cau 27/09/23. Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, rhoddir ystyriaeth briodol i'r rhain ac ymdrinnir â hwy yn unol â hynny.

07/09/23

School Streets in Cardiff are part of the Council's programme for making travel to school safer. We have written to residents previously about the Ysgol Coed y Gof School Street on Lime Grove and Bramble Close.

The School Street was implemented through an Experimental Traffic Regulation Order, which is a legal process lasting for 18 months. The School Street has been assessed using, for example, monitoring which has been carried out during the scheme and the responses to a survey earlier this year. A recommendation has been made to make the scheme permanent. This is subject to a further Traffic Regulation Order, which includes a statutory consultation period.

Residents within the School Street and within a 50m radius of the scheme are being notified that the permanent Traffic Regulation Order associated with the School Streets scheme is now at the public consultation stage and will be advertised on 05/09/23. We will also be notifying the school and local businesses.

Full details of the proposal and plans showing the extent of the proposed restrictions are available at www.cardiff.gov.uk/trafficorders. Once notices are placed on site, there is a 21 day objection period. Any comments must be submitted in writing on or before the closing date of 27/09/23. If any objections are received, these will be given due consideration and dealt with accordingly.